



**ADRODDIAD GAN Y  
PWYLLGOR DEDDFAU**

**LEGISLATION COMMITTEE  
REPORT**

## **Rheoliadau'r Tribiwnlysoedd Prasio (Cymru) 2005**

Diben y Rheoliadau yma yw sefydlu Gwasanaeth Tribiwnlys Prasio Cymru. Bydd Gwasanaeth Tribiwnlys Prasio Cymru yn cynnwys Tribiwnlys Prasio i bob un o bedair ardal. Bydd y Tribiwnlysoedd Prasio yn ymdrin ag apelau a fydd yn cael eu gwneud o dan y darpariaethau statudol fel y'u diffinnir yn rheoliad 3, gan ddechrau ymdrin ag apelau o'r fath ar 15 Chwefror 2006. Hen dribiwnlys fydd yn parhau i ymdrin â phob apêl hyd at ac yn cynnwys 14 Chwefror 2006.

### **Rheol Sefydlog 11.7**

Mae'r pwyntiau canlynol wedi'u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae'r diffiniad Saesneg o "completion notice" yn rheoliad 3(1) yn cyfeirio at Ddeddf 1988 "as it applies", tra bod y diffiniad Cymraeg yn defnyddio "ac mae'n berthnasol" sy'n llawer llai o orchymyn. Mae angen i'r anghysondeb gael ei ddatrys. Mae'r un mater yn codi yn rheoliad 28(3). [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Yn nhrydedd linell testun Cymraeg rheoliad 5, mae'n ymddangos bod y gair "Prasio" wedi'i hepgor yn anfwriadol. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae rheoliad 8(a) yn cyfeirio at "Llywyddion y Tribiwnlysoedd Prisio yng Nghymru a sefydlwyd yn unol â rheoliad 14". Yn rheoliad 11 yr ymdrinnir â sefydlu tribiwnlysoedd: â phenodi Llywyddion y mae rheoliad 14 yn ymdrin. Dydy hi ddim yn glir p'un a olygir. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae rheoliad 9 yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol benodi "person" i'r Cyngor Llywodraethu. Mae'r Pwyllgor wedi cael rheswm o'r blaen i ystyried adran 6 o Ddeddf Ddehongli 1978 sy'n darparu, ymhlith pethau eraill, fod geiriau yn yr unigol yn cynnwys y lluosog oni bai bod bwriad i'r gwrthwyneb i'w weld. Mae'r fannod amhendant yn y testun Saesneg yn golygu nad yw'r bwriad yn glir. Byddai defnyddio "un person" neu "un neu fwy o bersonau" yn egluro'r bwriad. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae rheoliad 12(12) yn darparu "os bydd nifer yr aelodau o Dribiwnlys Prisio, a benodir gan gyngor a'r Llywydd, sy'n aelodau o'r cyngor hwnnw, yn uwch nag un rhan o dair o gyfanswm aelodau'r Tribiwnlys Prisio a benodir gan y cyngor hwnnw a'r Llywydd, rhaid i'r cyngor hwnnw a'r Llywydd, o fewn chwe mis, wneud y fath benodiadau ar y cyd ag sy'n angenrheidiol dan baragraff (1)(a) i alluogi penodiadau'r cyngor hwnnw a'r Llywydd dan baragraff (1)(a) i gydymffurfio â pharagraff (9) y rheoliad hwn." Effaith paragraff (9) yw cyfyngu nifer yr aelodau sy'n gynghorwyr i un rhan o dair o nifer yr aelodau a benodir gan y cyngor hwnnw a'r Llywydd. Felly, mae rheoliad 12(12) yn mabwysiadu penodi aelodau ychwanegol fel y ffordd i gywiro'r sefyllfa. Er hynny, mae rheoliad 12(2) ac Atodlen 1 yn cyfyngu nifer yr aelodau y caniateir i gyngor a'r Llywydd eu penodi. Oherwydd hyn, dydy hi ddim yn glir a yw 12(12) yn effeithiol dim ond os oes lleoedd gwag a all gael eu llenwi er mwyn codi'r nifer hyd at yr uchafswm yn Atodlen 1, ynteu a fwriedir i 12(12) fod yn effeithiol er gwaethaf y cyfyngiad yn 12 (2). [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae rheoliad 13(4) yn darparu y "bydd y Prif Weithredwr, os cyfarwyddir ef felly gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn dilyn ymgynghori â'r cyngor a chyda Llywydd Tribiwnlys Prisio, drwy gyfrwng hysbysiad ysgrifenedig, yn rhoi i'r aelod hwnnw ba gyfnod o hysbysiad bynnag a gyfarwyddir, fod ei gyfnod yn y swydd i'w derfynu dan y paragraff hwn". Mae'r geiriad yn awgrymu mai'r Prif Weithredwr sy'n gorfod ymgynghori, ond os yw'r person hwnnw wedi'i gyfarwyddo gan y Cynulliad, dydy hi ddim yn ymddangos bod llawer o bwynt ymgynghori. Byddai ymgynghori gan y Cynulliad yn fwy ystyrlon, ond mae angen aralleirio ychydig. Dydy'r bwriad ddim yn glir. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Mae testun Saesneg rheoliad 15(1)(b) yn diweddu gyda'r geiriau "such period as may be so directed" ac mae'r Gymraeg yn gorffen gyda'r ymadrodd mwy anffurfiol "pa gyfnod bynnag a nodir." Os yw'n rhan o'r cyfarwyddyd, fel y mae'r testun Saesneg yn ei awgrymu, fe ddylai hyn fod yn glir yn y Gymraeg hefyd. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae "Gwasanaeth Tribiwnlys Prisio Cymru" ("Valuation Tribunal Service for Wales") yn derm sydd wedi'i ddiffinio yn rheoliad 3(1). Er hynny, dydy'r term ddim wedi'i ddefnyddio yn gywir yn rheoliadau 16(5)(b) a 18. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn ail linell testun Saesneg rheoliad 22(3)(b), mae'n ymddangos bod y gair "Act" wedi'i hepgor yn anfwriadol. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Bernir bod pob un o'r rhain yn fân wallau drafftio neu fân wallau teipograffyddol y byddai'n addas eu cywiro drwy gyfrwng Memorandwm Cywiriadau.

## **Sylwadau**

Mae rheoliad 36(3) yn dweud bod i "swyddog priodol" ("proper officer") yr un ystyr ag yn Neddf Llywodraeth Leol 1972. Mae gan y Ddeddf honno fwy na 250 o adrannau a 30 o Atodlenni ac felly byddai croesgyfeiriad manylach wedi bod yn well, fel mewn enghreifftiau eraill yn y Rheoliadau yma. Byddai troednodyn helaethach o gymorth.

Dydy gwaith fformadu'r Atodlen Gymraeg ddim mor glir â'r Saesneg. Bydd angen gofal wrth gyhoeddi'r Rheoliadau, er mwyn sicrhau bod nifer yr aelodau yn union gyferbyn â'r cyngor cywir.

Mae nifer o bwyntiau fformadu, sy'n cynnwys defnyddio priflythrennau, teip italig, y fannod a bylchau, wedi'u nodi. Byddai'n briodol cywiro'r rhain wrth gyhoeddi'r Rheoliadau.

## **Glyn Davies AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**29 Tachwedd 2005**